Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 370 (Cy. 56) (C. 16)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 4) 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 29 Mawrth 2023—

(a) adran 23(3) (dileu Cynghorau Iechyd Cymuned, a materion cysylltiedig);

(b) Atodlen 2 (trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau).

Mae erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2023—

(a) adran 1 (trosolwg o'r Ddeddf hon);

(b) adran 2 (ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau iechyd);

(c) adran 3 (pryd y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys);

(d) adran 5 (darparwyr gofal sylfaenol: dyletswydd i lunio adroddiad);

(e) adran 6 (cyflenwi a chrynhoi adroddiad o dan adran 5);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(f) adran 7 (Bwrdd Iechyd Lleol, ymddiriedolaeth GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig: gofynion adrodd);

(g) adran 8 (cyhoeddi crynodeb adran 6 ac adroddiad adran 7);

(h) adran 9 (cyfrinachedd);

(i) adran 10 (canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru);

(j) adran 13 (amcan cyffredinol);

(k) adran 14 (ymwybyddiaeth y cyhoedd a datganiad polisi);

(l) adran 15 (sylwadau i gyrff cyhoeddus);

(m) adran 16 (gwasanaethau eirioli etc. mewn cysylltiad â chwynion am wasanaethau);

(n) adran 17 (dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd);

(o) adran 18 (dyletswydd i gyflenwi gwybodaeth i Gorff Llais y Dinesydd);

(p) adran 20 (cydweithredu rhwng y Corff, awdurdodau lleol a chyrff y GIG);

(q) adran 23(1) a (2) (dileu Cynghorau Iechyd Cymuned, a materion cysylltiedig);

(r) adran 27 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol);

(s) paragraffau 6 (penodi'r aelod cyswllt), 7 (telerau aelodaeth gyswllt etc.) ac 8 (anghymhwyso rhag penodiad fel aelod anweithredol) o Atodlen 1 (Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru);

(t) Atodlen 3 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

Mae erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2023, i'r graddau nad yw'r darpariaethau hynny eisoes wedi eu cychwyn—

(a) adran 4 (gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd);

(b) adran 11 (dehongli "gofal iechyd" a thermau eraill).

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 24 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 26 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 12 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 19 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 21 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 22 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 4 (yn rhannol) | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 11 (yn rhannol) | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 25 | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 28 | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Atodlen 1 (ac eithrio paragraffau 6, 7, 8 a 22 o'r Atodlen honno) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Paragraff 22 o Atodlen 1 | 1 Hydref 2022 | 2022/996 (Cy. 212)(**1**) |

*Gweler* hefyd adran 29(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2020 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

(**1**) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 370 (Cy. 56) (C. 16)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 4) 2023

*Gwnaed* *26 Mawrth 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 29(2) a (3)(a) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 4) 2023.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Mawrth 2023**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 29 Mawrth 2023—

(a) adran 23(3);

(b) Atodlen 2.

(**1**) 2020 dsc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023**

**3.**—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2023—

(a) adran 1;

(b) adran 2;

(c) adran 3;

(d) adran 5;

(e) adran 6;

(f) adran 7;

(g) adran 8;

(h) adran 9;

(i) adran 10;

(j) adran 13;

(k) adran 14;

(l) adran 15;

(m) adran 16;

(n) adran 17;

(o) adran 18;

(p) adran 20;

(q) adran 23(1) a (2);

(r) adran 27;

(s) paragraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 1;

(t) Atodlen 3.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2023, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adran 4;

(b) adran 11.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2023